# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 11fed o Chwefror 2020 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Gerallt Davies (Cadair), Ruby Williams, Eiddwen Merritt, Wyn Evans a Barry Owen.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Y Cynghorwyr Garym Roberts, Wyn Jones, Jocelyn Andrew a Carys Morgan.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Ionawr a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Dim.

**Mater cynllunio:**
Dim.

**Asesiad Seilwaith Gwyrdd Ceredigion:**
Derbyniwyd lythyr yn sôn am rwydwaith o fannau gwyrdd lle y gellir cynnig llu o fuddion i wella ansawdd aer a dŵr. Bydd yr Asesiad yn edrych ar drefydd y Sir a bydd cyfarfod ar y 27ain o Chwefror yn Siambr y Cyngor yn Aberaeron.

**GIG Cymru – Gwasanaeth oriau tu allan:**
Mae gwasanaeth Tu Allan i Oriau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi penderfynu o'r 9fed o Fawrth 2020 i symud Meddyg Teulu Tu Allan i Oriau presennol o Landysul i Ysbyty Gyffredinol Glangwili, Caerfyrddin, yn ystod y cyfnod dros nos.

**Unrhyw Fater Arall:**
Derbyniodd y clerc ebost oddiwrth un o drigolion Henfynyw yn dangos ei chonsern am roi palmant ar Rhiwgoch, paswyd i'w gydnabod.
Derbyniwyd lythyr oddiwrth yr Adran Reoli Traffig yn cynnig cyflwyno Gorchymyn Rheoleiddio Traffig a fyddai'n gosod terfyn pwysau 7.5 tunnell ar hyd Rhiw Goch, Aberaeron a phaswyd gan y pwyllgor fod ganddynt ddim gwrthwynebiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.20.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 10fed o Fawrth.